**CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo ar ddydd Mercher 1af Medi 2021, yn dechrau am 6.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, A. R. James, B. Jones, K. R. Jones, Mrs P. M. Jones, Ms J. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, Ms V. Roberts, Mrs M. Walker and Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

## 26. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs D. L. King, P. Prendergast, Miss S. L. Roberts a T. Thomas.

## 27. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) – GORFFENNAF-AWST 2021

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu atodlen o daliadau a wnaed.

| Rhif Taleb. | Enw'r Cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 1184 | Shire Leasing | 337.33 | Rhent Prydles Ffôn Avaya 21/22 2 f 4 |
| 1185 | BT | 487.62 | Rhentu Llinell a Chynnal a Chadw a Galwadau Ffôn |
| 1186 | Cyngor Sir Ddinbych | 15,000.00 | Partneriaeth TCC 21/22 |
| 1187 | HSBC | 6.50 | Taliadau banc 17 Mai i 16 Mehefin 2021 |
| 1140 | Cyngor Sir Ddinbych | 736.00 | AAC Swyddfa Ddinesig Ffordd Wellington – taliad 4 o 10 |
| 1168 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 916.66 | Swyddog Apelio - taliad 4 o 12 21/22 |
| 1193 | Gunsmoke Communications | 1,440.00 | Ffioedd Rheoli Mehefin 2021 |
| 1194 | CThEM | 2,794.69 | Didyniadau PAYE Mehefin 2021 |
| 1195 | Cyngor Sir y Fflint (Cronfa Bensiwn Clwyd) | 4,294.23 | Cyfraniadau pensiwn ac ariannu diffyg Mehefin 2021 |
| 1196 | Cyflogau staff | **7,362.77** | Cyflogau Staff Gorffennaf 2021 |
| 1207 | HSBC | **6.50** | Taliadau banc 17 Mehefin i 16 Gorffennaf 2021 |
| 1140 | Cyngor Sir Ddinbych | **736.00** | ACC Swyddfa Ddinesig Ffordd Wellington – taliad 5 o 10 |
| 1168 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | **916.66** | Swyddog Apelio taliad 5 o 12 21/22 |
| 1208 | Gunsmoke Communications | **1,280.00** | Ffioedd rheoli Gorffennaf 2021 |
| 1209 | CThEM | **2,795.09** | Didyniadau PAYE Gorffennaf 2021 |
| 1210 | Cyngor Sir y Fflint (Cronfa Bensiwn Clwyd) | **4,294.23** | Cyfraniadau Pensiwn ac ariannu diffyg Gorffennaf 2021 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1211 | Cyflogau Staff | **7,363.17** | Cyflogau staff Awst 2021 |
| | **Cyfanswm taliadau** | **£50,767.45** | |

| Categoryi | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adnau 7 Diwrnod | 0.67 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adnau 7 Diwrnod | 0.67 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adnau 7 Diwrnod | 0.67 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adnau 7 Diwrnod | 0.58 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adnau 7 Diwrnod | 0.58 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adnau 7 Diwrnod | 0.58 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adnau 7 Diwrnod | 0.58 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adnau 7 Diwrnod | 0.58 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adnau 7 Diwrnod | 0.58 |
| Santander | Llog ar gyfrif rhybudd 31 diwrnod | 22.81 |
| Santander | Llog ar gyfrif rhybudd 31 diwrnod | 23.57 |
| CThEM | AD-daliad TAW ar gyfer Chwarter 1 Ebrill - Mehefin 2021 | 431.18 |
| Cyngor Sir Ddinbych | Praesept - Cyfran 2 o 3 ar gyfer 21/22 | 184,537.00 |
| | **Cyfanswm incwm** | **£185,020.05** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

**28. AWURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)**

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017 ac yn unol â'r rheoliadau ariannol a fabwysiadwyd gan y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau afreolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen).

(14eg Gorffennaf – 25ain Awst 2021)

| Rhif Taleb | Enw;r Cyflenwr | Disgrifiad o'r Gwasanaeth | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 1212 | Sage & Co | Gwasanaeth cyflogres Ebrill - Mehefin 2021 | 93.00 |
| 1213 | Sioned Graham Cameron | Gwasanaeth cyfieithu | 172.82 |
| 1214 | Sioned Graham Cameron | Gwasanaeth cyfieithu – Rhodio'r Rhyl | 39.55 |
| 1215 | Zoom | Tanysgrifiad blynyddol | 143.88 |
| 1216 | Y Cyngh D. L. King | Treuliau'r Maer Mehefin 2021 | 85.38 |
| 1217 | Design 2 Print | Argraffu 'Rhodio'r Rhyl' | 478.00 |
| 1218 | Gunsmoke Communications | Dylunio a dosbarthu 'Rhodio'r Rhyl' | 754.50 |
| 1219 | B&M | Papur i'r swyddfa | 28.00 |
| 1220 | Canda Copying | Rhentu a chopiau du a gwyn | 283.64 |
| 1221 | Canda Copying | Copiau lliw | 71.65 |
| 1222 | Viking (Office Depot Ltd) | Gorsafoedd diheintio dwylo ar gyfer digwyddiadau x4 | 513.60 |
| 1223 | Cyfrif Elusen Rhuddlan | Tocynnau ar gyfer digwyddiad codi arian 'Robbie' 19/9/21 | 50.00 |
| 1224 | BJS Solutions | Contract TGCh | 1,554.00 |
| 1225 | Lawnscience North Wales | Triniaeth lawnt yr haf yn y Gerddi Coffa | 40.00 |
| 1226 | Gunsmoke Communications | Glanweithydd a masgiau wyneb ar gyfer digwyddiad September Sizzler | 62.12 |
| 1227 | Bernie's Miles of Smiles | Peintio wynebau ar gyfer digwyddiad September Sizzler | 150.00 |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm** | **£4,520.14** |

**Taliadau Brys a Cherdyn**: Gwnaed tri thaliad. Taleb rhif 1215 am £143.88, taleb rhif 1219 am £28.00 a thaleb rhif 1222 am £513.60, gan ddefnyddio'r cerdyn corfforaethol.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen ar gyfer ei thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *atal y Rheolau Sefydlog er mwyn i Glerc y Dref fedru ymateb fel mater o frys.*

## 29. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – AROLWG LLETY SIPSIWN A THEITHWYR

Adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn yr arolwg uchod (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn gofyn i'r Cyngor Tref rannu unrhyw wybodaeth berthnasol sydd gan yr aelodau i gynorthwyo Cyngor Sir Ddinbych o ran adnabod lefel y galw yn y Rhyl.

Ychwanegodd Clerc y Dref nad oedd yr arolwg yn ywneud ag adnabod safleoedd posibl ac awgrymodd bod yr aelodau yn cwblhau'r ffurflen arlein yn unigol.

***PENDERFYNWYD*** *bod Clerc y Dref yn anfon y ddolen i'r arolwg i bob aelod er mwyn iddynt gyflwyno eu hymatebion eu hunain.*

## 30. CYFEILLION Y COB

Dywedodd y Cadeirydd, oherwydd bod y Cynghorydd P. Prendergast yn absennol o'r cyfarfod, ei fod wedi gofyn am gael gohirio'r eitem.

***PENDERFYNWYD*** *gohirio'r eitem tan gyfarfod nesaf y Cyngor.*

## 31. GOHEBIAETH: Y LLENG BRYDEINIG FRENHINOL – JIWBILI PLATINWM Y FRENHINES

Adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn yr uchod (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn hysbysu'r Cyngor Tref bod hwylddydd yn Marine Lake yn cael ei gynllunio gan y Lleng Brydeinig Frenhinol a Chadetiaid Môr y Rhyl i ddathlu'r achlysur.

Awgrymodd Clerc y Dref bod y mater yn cael ei gyfeirio i Is-bwyllgor CSG Cyngor, a fyddai'n cyfarfod gyda Rheolwr Digwyddiadau CSDd, Ms Sian Davies, ym mis Medi i drafod y calendr digwyddiadau mawr, lle gellid penderfynu ar y posibilrwydd o gydweithio.

***PENDERFYNWYD*** *cyfeirio'r ohebiaeth i'r Pwyllgor CSG i'w ystyried.*

## 32. GOHEBIAETH: GARETH DAVIES AS/MS

Adroddodd y Cadeirydd iddo dderbyn yr uchod (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn ei gyflwyno ei hun i'r Cyngor Tref.

***PENDERFYNWYD*** *gwahodd Mr Davies i gyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol.*

## 33. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried gweddill yr eitem hon yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

## 34. SUL DINESIG

Adroddodd Clerc y Dref yn gyfrinachol ar y trefniadau ar gyfer gwasanaeth y Maer yn Eglwys y Santes Fair ar ddydd Sul 3ydd Hydref, ac oherwydd cyfyngiadau Covid, ni fyddai lluniaeth ar gael.

Roedd lleoliad arall yn cael ei geisio ar gyfer ar gyfer derbyniad addas a allai fodloni'r cyfyngiadau ac arlwyaeth, a fyddai'n achosi costau uwch na'r lefel arferol eleni.

Gofynnodd Clerc y Dref am awdurdod y pwyllgor i gynyddu gwariant i £1,000 o'r gyllideb bresennol o £500 am eleni yn unig.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r cynnydd yn y gyllideb.*

## 35. EITEM YCHWANEGOL: PROMENAD

Gofynnodd Clerc y Dref am gefnogaeth yr aelodau i awdurdodi'r Is-bwyllgor Cynnal a Chadw Tiroedd i gyfarfod gyda swyddogion CSDd i drafod unrhyw gynlluniau sydd ganddynt i rwystro cerbydau rhag parcio ar y man gwyrdd ger Cerrig yr Eisteddfod, ac a fyddent yn elwa o gael arddangosfeydd blodau ychwanegol?

***PENDERFYNWYD*** *bod Dirprwy Glerc y Dref yn trefnu cyfarfod arbennig o'r Is-bwyllgor Cynnal a Chadw Tiroedd i gynnal trafodaethau gyda Mr Tony Ward a Mr Michael Bennion o CSDd.*

## 36. EITEM YCHWANEGOL: CASGLIAD AR GYFER FFOADURIAID O AFGHANISTAN

Dywedodd y Cynghorydd bod ei gyd-aelod ward, y Cynghorydd T. Thomas, wedi gofyn iddo godi'r eitem yn ei absenoldeb, gan fod un o drigolion lleol wedi cysylltu ag ef a oedd eisiau sefydlu pwynt casglu ar gyfer teuluoedd o Afghanistan a fyddai'n dod i Sir Ddinbych, mewn partneriaeth â'r Groes Goch Brydeinig.

***PENDERFYNWYD*** *aros nes bydd nifer y teuluoedd sy'n dod i Sir Ddinbych wedi ei gadarnhau a chael rhestr gynhwysfawr o'r union eitemau y byddent eu hangen, yn unol â phenderfyniad y Groes Goch Brydeinig a CSDd. Bryd hynny byddai'r Cyngor Tref yn falch o hyrwyddo a chefnogi.*

**37. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, bu i'r Cadeirydd ddirwyn y cyfarfod i ben.

Cadeirydd: …………………...

Dyddiad: ………………………